

Scouts

Cymru

Bwrdd Ymddiriedolwyr ScoutsCymru

# Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

GWOBRAU ELUSENNAU CYMRU WELSH CHARITY AWARDS

Organisation of the Year 2025

**Diolch am eich diddordeb yn y rôl bwysig hon.**

**Rydym yn chwilio am berson profiadol a meddylgar i gadeirio ein Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a chefnogi Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i ddarparu goruchwyliaeth strategol o gyllid, adnoddau a chynaliadwyedd hirdymor yr elusen.**

**Rôl llywodraethu strategol wirfoddol yw hon, nid rôl rheoli cyllid o ddydd i ddydd.** Mae ein tîm staff profiadol yn rheoli'r cyllid gweithredol, gyda chefnogaeth systemau sefydledig ac archwilwyr allanol annibynnol. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn helpu'r Bwrdd i ganolbwyntio ar y darlun ehangach, strategaeth ariannol, risg, gwydnwch, a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi ein cenhadaeth.

Rydym yn chwilio am rywun a all ddod â barn gadarn, her adeiladol, a dull cydweithredol. Nid oes angen bod yn gyfrifydd proffesiynol, ond dylech fod yn gyfforddus yn darllen gwybodaeth ariannol, gofyn y cwestiynau cywir, a helpu eraill i ddeall goblygiadau ariannol penderfyniadau.

Os ydych yn mwynhau cefnogi sefydliad trwy oruchwyliaeth glir, meddwl strategol, a llywodraethu da, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.






## Y rôl

Mae ScoutsCymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob person ifanc yng Nghymru y cyfle i ddatblygu sgiliau ar gyfer bywyd. I wneud hyn yn dda, mae angen stiwardiaeth ariannol gref arnom a Bwrdd sy'n hyderus yn ei oruchwyliaeth o adnoddau a risg.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn chwarae rhan allweddol wrth ein helpu i wneud hyn. Byddwch yn cadeirio cyfarfodydd pwyllgor, yn cefnogi'r Bwrdd yn ei ddealltwriaeth o berfformiad a chynllunio ariannol, ac yn craffu ac arwain ar y materion ariannol sydd bwysicaf.

Byddwch yn gweithio ochr yn ochr â thîm staff galluog, sy'n rheoli'r cyllid o ddydd i ddydd, a chydag archwilwyr allanol sy'n darparu sicrwydd annibynnol. Eich rôl fel ymddiriedolwr gwirfoddol yw sicrhau bod gan y Bwrdd y wybodaeth, yr her a'r mewnwelediad sydd eu hangen i wneud penderfyniadau strategol cadarn.

## Yr hyn rydym yn chwilio amdano

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl a all gynnig:

- Meddwl strategol a chrebwyll da.
- Hyder wrth ofyn cwestiynau adeiladol.
- Y gallu i gadeirio cyfarfodydd yn effeithiol ac annog trafodaeth gytbwys.
- Dealltwriaeth o wybodaeth ariannol ar lefel y bwrdd.
- Sgiliau cyfathrebu clir, gan gynnwys y gallu i esbonio materion ariannol i gydweithwyr nad ydynt yn gweithio ym maes cyllid.
- Arddull gydweithredol, gynhwysol a chefnogol.
- Ymrwymiad i genhadaeth a gwerthoedd ScoutsCymru.

Byddai profiad mewn cyllid elusennol, archwilio, neu lywodraethu ariannol yn ddefnyddiol, ond rydym hefyd yn agored i bobl â sgiliau trosglwyddadwy o sectorau eraill lle mae goruchwyliaeth, dadansoddi a gwneud penderfyniadau cryf yn hanfodol.



## Sut y byddwch yn cael eich cefnogi

Ni ddisgwylir i chi redeg y swyddogaeth gyllid eich hun. Yn hytrach, byddwch yn cael eich cefnogi gan:

- Dîm staff profiadol sy'n rheoli gweithrediadau cyllid o ddydd i ddydd.
- Adrodd ariannol rheolaidd a phapurau pwyllgor.
- Archwilwyr allanol annibynnol.
- Fframwaith llywodraethu a strwythur Bwrdd sefydledig.

Mae hyn yn golygu bod y rôl yn canolbwyntio ar gefnogaeth achlysurol, her feddylgar, a chraffu strategol yn hytrach na chyfrifoldeb gweithredol.

## Pam mae'r rôl hon yn ddeniadol

Mae hwn yn gyfle gwerthfawr i rywun sydd eisiau gwneud gwahaniaeth gwirioneddol heb gymryd llwyth gwaith gweithredol trwm. Byddwch yn helpu i lunio cyfeiriad ariannol yr elusen, yn cyfrannu at lywodraethu cryf, ac yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi cenhadaeth sy'n newid bywydau pobl ifanc ledled Cymru.







## Neges gan y Cadeirydd

Diolch yn fawr iawn am eich diddordeb mewn ymuno â Bwrdd Ymddiriedolwyr ScoutsCymru. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi cymryd camau sylweddol o ran datblygu'r Bwrdd, a byddwch yn ymuno â grŵp ymroddedig a gweithgar, gan ddod â'ch sgiliau a'ch profiad i'r amlwg wrth ddilyn ein cenhadaeth.

Mae sylfeini cryf yn hanfodol fel bod pobl ifanc ledled Cymru yn gallu cymryd rhan mewn cyfarfodydd wythnosol, gwersylloedd, teithiau, profiadau rhyngwladol, a chyfleoedd i lobïo dros newid. Er bod gennym sylfaen ariannol dda, rydym eisiau parhau i ddatblygu ein meddwl strategol ynghylch sut mae gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau i sicrhau dyfodol disglair i Sgowtio yng Nghymru.

Bydd Cadeirydd nesaf y Pwyllgor Cyllid yn parhau i ddatblygu ein strategaethau ariannol, gan ddarparu cefnogaeth a chyfeiriad penodol ar bob mater sy'n gysylltiedig ag arian, gan gynnwys sicrhau bod gan y Bwrdd y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau buddsoddi a gwario hyderus. Bydd angen iddynt fod yn aelodau tîm gwych gyda llygad am fanylion, yn ogystal â'r gallu i ymgysylltu ag ystod eang o gynulleidfaoedd gyda'r cyllid.

Rwy'n arbennig o awyddus i weld diddordeb gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar y Bwrdd ar hyn o bryd, gan gynnwys menywod, pobl o ethnigrwydd lleiafrifol, pobl anabl, a phobl sy'n uniaethu fel LHDTC+. Nid oes angen profiad blaenorol o fod yn ymddiriedolwr, ond bydd angen i chi allu meddwl yn strategol a bod yn barod i ofyn cwestiynau heriol ac ystyrlon i uwch wirfoddolwyr a staff, a gallu rhoi'r amser sydd ei angen.

Mae bod yn rhan o ScoutsCymru yn llawer o hwyl, ac yn wirioneddol werth chweil. Mae gennym uwch-dîm staff a gwirfoddolwyr rhagorol, sy'n cyflwyno Sgowtio i bron i 14,000 o blant a phobl ifanc ac mae ganddynt lawer o gynlluniau cyffrous ar gyfer y dyfodol.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych chi.

**Kirsty Palmer**
Cadeirydd





## Amdanom Ni

ScoutsCymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n cefnogi Sgowtio ledled Cymru, gan helpu bron i 14,000 o bobl ifanc rhwng 4 a 25 oed i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer bywyd, bob wythnos. Gyda mwy na 4,600 o wirfoddolwyr yn cynnig darpariaeth ieuenctid ddiogel o ansawdd uchel mewn cymunedau ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol, mae ScoutsCymru yn chwarae rhan ganolog wrth lunio hyder, lles a rhagolygon y dyfodol i bobl ifanc yng Nghymru.

**Ein Gweledigaeth**

Grymuso mwy o bobl ifanc trwy antur, gwaith tîm a gwerthoedd a rennir, i gymryd yr awenau wrth wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn y byd.

**Ein Diben**

Ymgysylltu a chefnogi pobl ifanc yn weithredol yn eu datblygiad personol, gan eu grymuso i wneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas.

**Ein Strategaeth**

Lansiwyd ein strategaeth newydd eleni, Lle i Berthyn. Gan adeiladu ar ddau biler allweddol; Rhaglen – darparu Rhaglen anturus a chynhwysol a Gwirfoddoli – Cefnogi ein Gwirfoddolwyr, erbyn 2035 bydd gennym:

1. Fudiad sy'n tyfu ac sy'n gynhwysol
2. Mwy o bobl ifanc yn ennill sgiliau ac yn arwain newid
3. Gwirfoddolwyr sy'n teimlo'n hyderus, yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi
4. Cymunedau cryfach a mwy cysylltiedig
5. Mudiad diogel, cynhwysol a chynaliadwy

Wedi'i ategu gan ein gwerthoedd craidd;
Uniondeb, Parch, Gofal,
Cred, Cydweithrediad.



## Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

**Yn atebol i**

- Gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

**Prif Gyfrifoldebau**

- Goruchwylio datblygiad Strategaeth Ariannol a’r broses Cynllunio Busnes Blynyddol.
- Sicrhau bod gan ScoutsCymru brosesau priodol ar waith ar gyfer gosod a monitro ei gyllideb.
- Darparu goruchwyliaeth strategol wybodus i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a staff ScoutsCymru mewn perthynas â rheolaeth ariannol.
- Gweithredu fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.
- Cyfrannu fel aelod gwerthfawr o'r Bwrdd.

**Prif Ddyletswyddau**

- Gweithio ochr yn ochr â staff ScoutsCymru mewn perthynas â strategaeth ariannol a chynllunio busnes a darparu adroddiadau perthnasol.
- Sicrhau bod gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a Staff ScoutsCymru reolaeth briodol ar waith o asedau a buddsoddiadau.
- Fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, sicrhau diwylliant o gyfraniad gan holl aelodau'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.
- Fel rhan o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, sicrhau bod rheolaethau a systemau ariannol ar waith gan gynnwys awdurdod dirprwyedig priodol.
- Cyfrannu at strategaeth codi arian / fasnachol y sefydliad.
- Cyflwyno'r cyfrifon blynyddol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol ScoutsCymru.



## Manyleb y Person

**Profiad**

- Profiad sy'n cefnogi goruchwyliaeth a llywodraethu ariannol effeithiol.
- Y sgiliau a'r gallu i ddadansoddi data, adroddiadau a chynigion ac archwilio eu canlyniadau ariannol
- Hanes profedig o farn gadarn a gwneud penderfyniadau effeithiol
- Hanes o ddidueddrwydd, tegwch a'r gallu i barchu cyfrinachau
- Rhywfaint o brofiad o lywodraethu pwyllgor archwilio a/neu gyllid

**Gwybodaeth, Sgiliau a Dealltwriaeth**

- Dealltwriaeth o ofynion rheoleiddio ariannol a chyfrifeg elusennol.
- Ymrwymiad i ScoutsCymru a pharodrwydd i neilltuo'r amser a'r ymdrech angenrheidiol i'r rôl.
- Hyder i ddarparu her adeiladol.
- Ar gael i gynnig arweiniad achlysurol i staff pan fo angen.
- Gallu cyfleu cysyniadau ariannol cymhleth i gydweithwyr nad ydynt yn gweithio ym maes cyllid.
- Barn dda, annibynnol a gweledigaeth strategol.
- Dealltwriaeth a derbyniad o ddyletswyddau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau cyfreithiol bod yn ymddiriedolwr elusen.
- Gallu gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm a dangos lefelau uchel o onestrwydd.
- Ymrwymiad amlwg i ethos a gwerthoedd Sgowtio.

**Rydym yn croesawu pawb**

Ein nod yw datblygu Bwrdd Ymddiriedolwyr amrywiol, sy'n adlewyrchu cymunedau ledled Cymru ac yn annog amrywiaeth o feddwl a phrofiad ar draws ein sefydliad. O'r herwydd, rydym yn awyddus i glywed gan bobl o ystod o gefndiroedd a phrofiadau, sy'n rhannu ein gwerthoedd ac sydd eisiau gwneud gwahaniaeth.

Ar hyn o bryd, rydym yn arbennig o awyddus, ond nid yn gyfan gwbl, i geisiadau gan fenywod, pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol, pobl ag anableddau a phobl LHDTC+.



## Gwybodaeth bellach am y rôl

**Tymor yr Ymddiriedolwr**
Tair blynedd, i'w adnewyddu hyd at chwe blynedd, ynghyd ag un flwyddyn ychwanegol mewn amgylchiadau eithriadol.

**Ymrwymiad amser**

- 5 Cyfarfod Bwrdd (2 wyneb yn wyneb a 3 ar-lein).
- 4 Cyfarfod Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau (ar-lein).
- 1 Penwythnos Preswyl sy'n cynnwys y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
- Byddwch yn ymwybodol y gall yr ymrwymiad amser amrywio o flwyddyn i flwyddyn.
- Tâl: Mae hon yn rôl wirfoddol, felly nid oes tâl ond bydd treuliau rhesymol yn cael eu had-dalu.

**Yr hyn rydym yn ei gynnig i chi**

- Cyflwyniad llawn.
- Hyfforddiant sy'n berthnasol i'r rôl.
- Cyfle i wneud penderfyniadau strategol, datblygu sgiliau newydd, ac ymgysylltu ag unigolion o'r un anian.
- Bodlonrwydd wrth arwain a galluogi ScoutsCymru i barhau i wneud gwahaniaeth i fywydau miloedd o bobl ifanc ledled Cymru.
- Ennill profiad pellach o'r trydydd sector, llywodraethu a gwydnwch ariannol.
- Cyfle i ymuno â digwyddiadau a dathliadau cenedlaethol.



Scouts
Cymru

## I wneud cais, bydd angen y canlynol

- CV - Gwnewch yn siŵr bod hyn yn cadarnhau eich rolau presennol/diweddaraf (gallwch grynhoi rolau cynharach, dyweder cyn y 15 mlynedd diwethaf), dywedwch wrthym am eich llwyddiannau fel ein bod yn cael darlun o'ch sgiliau a'ch profiad, a cheisiwch ei gadw i ddwy dudalen neu dair ar y mwyaf;
- Datganiad personol - Rydym eisiau clywed am eich cymhelliant, a byddwch hefyd eisiau dangos pa mor berthnasol yw eich cynnig i fanyleb y rôl, unwaith eto yn ddelfrydol mewn dwy i dair tudalen.

Cyflwynwch eich dogfennau cais wedi'u cwblhau i **admin@scoutscymru.org.uk**

Byddwch yn derbyn cadarnhad e-bost ar ôl cyflwyno eich cais.

Mae croeso i chi gysylltu â ni os hoffech gael trafodaeth anffurfiol am y rôl a'r sefydliad, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill i'ch helpu i benderfynu a ddylech wneud cais.



Scouts
Cymru

www.scoutscymru.org.uk

Rhif elusen 522572